**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-HIDCCRA-5473-24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

22 Awst 2024

Annwyl Paul,

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Douglas-Miller, Gweinidog Defra dros Fioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn ymwneud â mesurau sy'n berthnasol i'r bysgodfa draenogiaid môr sy'n ymestyn y tu hwnt i Barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU. Yn benodol, mae Rheoliadau 2024 yn dileu darpariaethau pysgota draenogiaid môr ar gyfer cychod pysgota cofrestredig y Deyrnas Unedig o Reoliad y Cyngor (UE) 2020/123. Mae hyn er mwyn galluogi cyflwyno rheolaeth mwy ymatebol trwy drwyddedu cychod.

Wrth i'r Rheoliadau hyn weithredu rhwymedigaethau ledled y DU rwy'n bwriadu rhoi fy nghaniatâd i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwyliedig yw 8 Hydref ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs